Live Fear Free Helpline
Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales
Darparu gwybodaeth a chefnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru
0808 80 10 800
MAE PLANT YN BWYSIG
CHILDREN MATTER
Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant

## 'Trais yn erbyn Menywod a Phlant: Addysg ac Atal'
## Noddwyd gan Bethan Jenkins AC a Mark Isherwood AC
## 7 Mawrth 2017, 12:00-13:30
## Ystafelloedd Seminar, y Pierhead

**Yn bresennol:**
Bethan Jenkins AC (Cyd-gadeirydd)
Mark Isherwood AC (Cyd-gadeirydd)
Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant.
Hilary Watson – Cymorth i Fenywod Cymru (cofnodion)
Yr Athro Emma Renold – Prifysgol Caerdydd (siaradwr)
Hannah Wharf – Cymorth i Fenywod Cymru (siaradwr)
Nia Griffiths – Is-adran Diwygio'r Cwricwlwm (siaradwr – drwy gyswllt ffôn)
Gwendolyn Sterk – Cymorth i Fenywod Cymru
Eleri Butler – Cymorth i Fenywod Cymru
Ami Willcox – Cymorth i Fenywod Cymru
Kay Lemon – Cymorth i Fenywod Cymru
Gwilym Roberts – Relate Cymru
Sarah Thomas – Sefydliad y Merched
Faith McCready – Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan
Bethan – SEEDS
Gauri – SEEDS
Sarah – SEEDS
Kamal – SEEDS
Natalie Blakeborough – Cymorth i Fenywod Casnewydd
Fflur Elin – UCM Cymru
Emma Flanagan – Cymru Ddiogelach
Sharon Hughes – Hafan Cymru
Rhodri Walters – Hafan Cymru
Mutale Merrill – BAWSO
Menna Thomas – Barnardo's

**Ymddiheuriadau:**
Simon Thomas AC
Lee Waters AC
Mair Rigby – Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
Sarah Thomas – New Pathways
Jane Ruthe - Canolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol
Jan Pickles – y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
Bernie Bowen-Thomson – Cymru Ddiogelach
Vivienne Liang – y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)
Ruth Mullineux – NSPCC
Sam Clutton – Barnardo's

Tŷ Pendragon, Plas Caxton | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XE
Ffôn: 02920 541551 | Ffacs: 02920 736128
E-bost: info@welshwomensaid.org.uk | Gwefan: www.welshwomensaid.org.uk

Rhif Elusen Gofrestredig: 1140962

**Cofnodion**

**Siaradwyr:**

***Hannah Wharf* – Pennaeth Ymgysylltu, Cymorth i Fenywod Cymru**
'Rhoi Dull Addysg Gyfan ar waith: rôl gwasanaethau arbenigol' dogfen y Dull Addysg Gyfan
http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/151020-whole-education-approach-good-practice-guide-cy.pdf

Eglurodd y cyflwyniad yn fras:
Mae sefydliadau addysgol yn rhywle y gellir rhoi gwybod am achosion a threfnu ymyrraeth gynnar. Gall pobl ifanc ddysgu sgiliau a gwybodaeth, newid ymddygiad, hyrwyddo addysg am berthnasoedd diogel a chydraddoldeb rhyw. Nid gwersi untro na hyfforddiant a geir – yn hytrach, dysgu am drais yn erbyn menywod a phlant a pherthnasoedd iach ar draws y cwricwlwm. Dull cyflawn i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a phlant – staff yn dysgu, rhieni a'r gymuned yn dysgu a phobl ifanc yn dysgu.

***Yr Athro Emma Renold* – Prifysgol Caerdydd**
'Pam mae cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn bwysig: rhannu astudiaethau achos o adnodd newydd, "AGENDA: Canllaw i bobl ifanc ar wneud i berthnasoedd cadarnhaol gyfri" Llwythwch AGENDA am ddim: http://agenda.cymru/agenda/

Eglurodd y cyflwyniad yn fras:
Y prif ganfyddiadau fod anghydraddoldeb rhwng y rhywiau ymhlith pobl ifanc yn cael ei ddefnyddio'n aml i fychanu neu i gyfiawnhau aflonyddu rhywiol "normal", er enghraifft dweud mai tynnu coes yw'r defnydd o "gay" a "girl" fel enwau sarhaus (95 y cant o blant wedi clywed hyn). Mae llawer o bobl ifanc, yn enwedig y grwpiau iau, yn ansicr beth yw gweithgarwch rhywiol cydsyniol. Mae tri maes i becyn cymorth Agenda ar gyfer pobl ifanc:

- cyfranogiad
- dysgu myfyrwyr
- ymgyrchu.

***Nia Griffiths* – Pennaeth y Maes Dysgu a Phrofiad yn Is-adran Diwygio'r Cwricwlwm Llywodraeth Cymru**
'Y Dull Addysg Gyfan: y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Cwricwlwm Newydd'

Eglurodd y cyflwyniad yn fras:

Bydd canfyddiadau'r grwpiau Dylunio Strategol yn llywio'r gwaith o gynllunio a datblygu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (AoLEs). Cyhoeddwyd y grwpiau AoLE ym mis Ionawr, ac ymunodd 25 o Ysgolion Arloesi newydd â'r rhwydwaith i helpu â'r cam datblygu nesaf. Cyflwynodd Nia'r datganiad atodedig:

Nia Griffiths

**Datganiad Estyn:**
Bwriedir cyhoeddi adroddiad cylch gwaith Estyn ar gwmpas yr addysg a ddarperir ynghylch perthnasoedd iach a'r broses o'i chyflwyno ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r datganiad wedi'i atodi:

Estyn Statement

**Trafodaeth:**

1. **Y ddarpariaeth bresennol:** Nodwyd bod nifer o raglenni a phecynnau cymorth yn cael eu darparu gan arbenigwyr ar draws y sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a bod yr heddlu, gan gynnwys Sbectrwm (Hafan Cymru), S.T.A.R. (Cymorth i Fenywod Cymru), AGENDA (sy'n cael ei arwain gan Brifysgol Caerdydd ac yn cael ei gyd-gynhyrchu gydag NSPCC Cymru, Cymorth i Fenywod Cymru, Comisiynydd Plant Cymru a Llywodraeth Cymru) a Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (a gyflwynir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, pedwar Heddlu Cymru ac ysgolion).
2. **Faint o addysg ynghylch perthnasoedd iach a geir yn y cwricwlwm newydd:** trafodwyd a oedd y datblygiadau cwricwlwm yn ymdrin â mathau eraill o berthnasoedd iach yn ogystal â chamdriniaeth. Atebodd Nia Griffiths fod datblygiad y cwricwlwm newydd yn dal ar gam cynnar. Bydd yn ystyried ffurfio panel ar berthnasoedd iach.
3. **Dull Addysg Gyfan ym mhob ysgol:** Yr argymhelliad gan oroeswyr trais yn erbyn menywod yn ddiweddar oedd y dylid cael dull addysg gyfan ym mhob ysgol. Rhaid i hyn gael ei gefnogi gan y sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol. Awgrymwyd bod angen i'r dull addysg gyfan ddod yn rhan o ddull cymuned gyfan, fel nad yw'n cael ei gyfyngu i ysgolion.
4. **Y cyfnod interim cyn y cwricwlwm newydd:** Oherwydd y bydd yn cymryd peth amser i gwricwlwm newydd ddod i rym, mynegwyd pryderon am y plant sydd mewn addysg ar hyn o bryd na fyddant yn cael yr addysg ynghylch lles a pherthnasoedd iach a gynigir yn y dyfodol.
5. **Dull Cymuned Gyfan:** Trafodwyd bod angen i ddull addysg gyfan o ran cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) gael ei gefnogi gan ddull cymuned gyfan sydd wedi'i ddatblygu gan BME, dros gymunedau o'r fath. Rhaid i hyn gael ei wneud â chefnogaeth arbenigwyr ar gymunedau BME a sefydliadau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
6. **O fewn fframwaith y Strategaeth Genedlaethol:** Mae angen nodi'r broses o ran hyrwyddo a chyflwyno'r dull addysg gyfan yn *'Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-2021'.*
7. **Nid yw ysgolion yn ymwybodol o'r Ddeddf a'r canllawiau:** Mae'n ymddangos bod llawer o ysgolion yng Nghymru nad ydynt yn ymwybodol o'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, dogfen ganllaw y Dull Addysg Gyfan nac adnoddau AGENDA. Mae angen i athrawon ac arweinwyr awdurdodau addysg lleol wybod am eu dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf a'r adnoddau a'r canllawiau sydd ar gael i'w cefnogi wrth addysgu ynghylch materion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod a phlant, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
8. **Amserlenni Ysgol:** er bod gobaith y bydd pethau'n gwella gydag Adolygiad Donaldson a bod y dosbarthiadau Addysg Bersonol a Chymdeithasol o safon dda, codwyd pryderon nad oes unrhyw amser wedi'i neilltuo yn amserlenni ysgolion, sy'n golygu bod ABCh yn cael ei chyflwyno'n ad hoc ac y gallai unigolyn golli pynciau pwysig yn gyfan gwbl os yw'n absennol pan fo'r gwersi sy’n rhan o’r broses addysg ysgol gyfan yn cael eu cyflwyno.

Cyfarfod nesaf – 24 Mai 2017 ar **ddiwygiadau lles**

**Camau Gweithredu:**

1. E-bostio manylion y grŵp 'cyfrinachol' ar Facebook i'r holl gysylltiadau (ysgrifenyddiaeth)
2. Dosbarthu'r 'Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru' (ysgrifenyddiaeth)

http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/151020-whole-education-approach-good-practice-guide-cy.pdf

3. Dosbarthu cyflwyniad PowerPoint Emma Renold (ysgrifenyddiaeth)
4. Llythyr at Kirsty Williams AC Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar sut y mae awdurdodau lleol yn ymdrin â'r materion a godwyd yn y drafodaeth a sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyfathrebu ag ysgolion ynghylch yr adnoddau sydd eisoes ar gael (ysgrifenyddiaeth a'r Cadeiryddion)